

## Cofion a Chyfarchion

Parhawn i gofio heddiw am bawb sy'n galaru am anwyliaid. Gweddïwn y byddant yn profi Duw yn agos a'u bod yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu y dyddiau hyn.

Cofiw'n hefyd y rhai o'n plith sydd heb fod cystal eu hiechyd a chyflwynwn hwythau hefyd i ofal Duw gan weddio y bydd pob un ohonynt yn cael adferiad iechyd llwyr a buan ac y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn rhoi nerth a chysur iddynt yn eu hangen.

Llongyfarchiadau calonnog i Eleri Ll. Jones (Groes) a Huw Jones ar eu dyweddïad. Dymunwn yn dda i'r ddau ohonynt a gweddïwn am fendith Duw ar eu perthynas.

## Cardiau Nadolig

Mae yna ddeg gwahanol gynllun o gardiau Nadolig Cymraeg ar gael gan y Cyngor Ysgolion Sul ar gyfer 2017. Ar bob cerdyn mae cyfarchiad ac adnod, ynghyd â llun lliw pwrpasol. Ceir 8 o gardiau mewn pecyn a hynny am £2.00, ond cynigir cynllun arbennig ar gyfer eglwysi ac Ysgolion Sul: am bob pecyn a werthir, bydd 50c yn mynd i gronfa eich Ysgol Sul neu eich eglwys chi.

Os carech archebu cardiau, rhowch eich enw a'ch dewis o gardiau ar y daflen sydd wedi ei dosbarthu i bob un o eglwysi'r Ofalaeth **erbyn Hydref 29ain**, os gwelwch yn dda, fel y gallwn eu harchebu ar eich cyfer mewn da bryd a chyn i'r stoc fynd yn isel.

*(YSGRIFENYDDION: Rhowch archeb eich eglwys/Ysgol Sul i Mair erbyn diwedd y mis hwn, os gwelwch yn dda, fel y gallwn drefnu i'w casglu a'u dosbarthu i chi mor fuan ag y bydd hynny'n bosibl wedi hynny.)*

## I ddod

- **OEDFA DIOLCHGARWCH CAPEL CEFN BERAİN** nos Wener, Tachwedd 10fed am 7.00 gyda'r Parch. Dafydd Rees Roberts yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- **CYNHADLEDD UNDYDD DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD** yng Nghapel Tegid, Y Bala dydd Mercher, Tachwedd 15fed o 10.00 – 3.00.

## Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291  
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 582644 📱 07849 591163  
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

*Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

## Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 15<sup>fed</sup> Hydref 2017

## Darlleniad y Dydd

Josua 4:1-8

(BCND tud.199 / BCN tud.182)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Bore da a chroeso cynnes i'r gwasanaethau ar draws Bro Aled. Gweddïwn heddiw y bydd Duw yn ein cynnal ac yn ein nerthu ac y byddwn yn dod i sylweddoli pa mor anhygoel ydy ei nerth a'i gariad drosom ni.

Ein darlleniad heddiw ydy hanes yr Israeliaid yn croesi'r afon Iorddonen ar ôl i Dduw achosi i'r afon stopio llifo er mwyn iddynt ei chroesi. Ar ôl hyn mae Duw yn dweud wrth Josua i godi carnedd hefo cerrig o wely'r afon i gofio beth ddigwyddodd yno. Mae hwn yn un o hanesion enwocaf yr Hen Destament ac mae'n dod yn syth cyn yr hanes enwog arall o goncro dinas Jericho. Mae'n cyfuno arddangosiad o rym Duw, pwysigrwydd ei Sancteiddrwydd ac ymateb pobl i'r Duw yma. Ond beth sydd gan yr hanes yma i ddweud wrthym ni heddiw?

Un o'r pethau sy'n gyffredin i ni i gyd ydy ein cof. Mae'n rhyfedd ein bod ddim ond yn ystyried ein cof pan mae'n methu, neu pan mae'n llwyddo. Rydym unai'n dweud "Sut allwn i fod wedi anghofio!" neu "Dyna i chi gof da sydd gan hwn a hwn." Sawl gwaith wrth i ni straffaglu i gofio rhywbeth, mae ein cof yn cael kickstart wrth i ni sylwi ar rywbeth o'n cwmpas ni fydd yn ein hatgoffa?

Mae'r garnedd o gerrig gafodd ei godi gan ddeuddeg o'r Israeliaid yn gweithio yn yr un modd. Roedd yno i atgoffa'r bobl o'r hyn oedd wedi digwydd yn y fan honno. Yn debyg i garreg Ebeneser a godwyd yn nes ymlaen (1 Samuel 7), roedd y garnedd yn atgoffa'r bobl o'r ffordd yr oedd Duw wedi gweithio yn eu cenedl o'r blaen, o ble yr oedd wedi dod â nhw, i ble roedden nhw'n mynd a pha bŵer oedd gan y Duw yma. Wrth edrych ar y garnedd yma a chofio'r hanes oedd yn mynd gyda hi, mi fyddai'r Israeliaid wedi cofio'r Duw oedd o'u plaid nhw. Fedrwn chi ddychmygu mewn amser o galedi, rhywun yn mynd at yr Iorddonen a rhyw hanner meddwl fod pethau wedi bod yn well cyn iddyn nhw groesi i wlad yr addewid? Yna'n sylwi ar y garnedd a chofio hyd yn oed llif afon Iordan Yr Iorddonen wedi ymostwng a sychu er mwyn i bobl ac Arch Cyfamod Duw ei chroesi. Dychmygwch gymaint o hwb fyddai hynny o gofio fod y Duw yma yn dal o blaid y genedl!

Tybed beth yn ein bywydau ni sy'n ein hatgoffa ni o ba mor anhygoel ydy yr Arglwydd? Tybed ydyn ni heddiw angen cael ein hatgoffa o'r hyn mae Duw wedi ei wneud trosom a beth mae'n dal i wneud trosom?

**DILYNWCH NI:** @eglwysibroaled

*Gwion*

## Darlleniad Wythnos Nesaf

1 Brenhinoedd 17:12-16 (BCND tud.330 / BCN tud.301)

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 15<sup>fed</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 18<sup>fed</sup> ➤ **Dal i Gredu** \*NEWYDD – Y cyntaf mewn cyfres o sesiynau i holi a thrafod yn Festri Cefn Meiriadog am 7.30. Croeso i bawb.
- Iau – 19<sup>eg</sup> ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- Gwener – 20<sup>fed</sup> ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
- Sul nesaf – 22<sup>ain</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwawr Davies, a bydd Celfyn Williams yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 15<sup>fed</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Iau – 19<sup>eg</sup> ➤ Oedfa Diolchgarwch Capel Soar, Llanfair Talhaiarn am 7.00, gyda'r Parch. John Owen Rhuthun yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 22<sup>ain</sup> ➤ Bydd y Parch. Dafydd Job yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 15<sup>fed</sup> ➤ Bydd Aneurin yn arwain Oedfa Diolchgarwch yr oedolion am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
  - Bydd Aneurin yn arwain Oedfa Diolchgarwch Nantglyn am 2.00.
  - Bydd Pwyllgor Cymdeithas y Beibl Llansannan yn cyfarfod yn Ystafell y Blaenoriaid am 7.15.
- Llun – 16<sup>eg</sup> ➤ Noson Agoriadol Cymdeithas Llansannan yng nghwmni Mali Elwy a Rhodri Evans yn y Festri am 7.30. Croeso cynnes i bawb.
- Mawrth – 17<sup>eg</sup> ➤ Paned a Sgwrs yn Festri Llansannan o 1.30-3.30. Croeso i bawb.
- Mercher – 18<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **HEDDIW**, os gwelwch yn dda.
  - Cymdeithas Chwirydd Groes, Nantglyn a Pheniel yn cyfarfod yn Groes am 7.30 pryd y bydd Sarah Dafydd yn sôn am ei thaith i Ethiopia.
- Sul nesaf – 22<sup>ain</sup> ➤ Bydd y Parch. Dafydd Job yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
  - Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 15<sup>fed</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Mawrth – 17<sup>eg</sup> ➤ Clwb Ysgol Sul Saron yn Festri Capel Saron am 3.15.
- Mercher – 18<sup>fed</sup> ➤ Cymdeithas Chwirydd Groes, Nantglyn a Pheniel yn cyfarfod yn Groes am 7.30 pryd y bydd Sarah Dafydd yn sôn am ei thaith i Ethiopia.
- Gwener – 20<sup>fed</sup> ➤ Eisteddfod y Pwyntiau Prion, Peniel a Saron am 5.30 yn Ysgol Pant Pastynog.
- Sul nesaf – 22<sup>ain</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 15<sup>fed</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa fedydd i'r daith yn Groes am 10.00 pryd y bydd Iwan a Menna Jones yn cyflwyno Mared Gwenllian i gael ei bedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Mercher – 18<sup>fed</sup> ➤ Cymdeithas Chwirydd Groes, Nantglyn a Pheniel yn cyfarfod yn Groes am 7.30 pryd y bydd Sarah Dafydd yn sôn am ei thaith i Ethiopia.
- Gwener – 20<sup>fed</sup> ➤ Oedfa Diolchgarwch Capel y Groes am 7.00 gyda'r Parch. Ddr Andras Iago yn pregethu. Croeso i bawb.
- Sul nesaf – 22<sup>ain</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa deulu i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 15<sup>fed</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Mercher – 18<sup>fed</sup> ➤ Swper Diolchgarwch yn Neuadd Llanefydd am 7.00 yng nghwmni Dr Owain Edwards. Bydd y casgliad yn mynd tuag at Apêl Corwynt Cariad.
- Gwener – 20<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul, Hydref 15fed**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 22<sup>ain</sup> ➤ Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yng Nghefn Berain am 10.00.